

GRIFFITH, JOHN OWEN ('Ioan Arfon'; 1828 - 1881), bardd a beirniad

Enw: John Owen Griffith

Ffugenw: Ioan Arfon

Dyddiad geni: 1828

Dyddiad marw: 1881

Priod: Ann Griffith (née Roberts)

Plentyn: Robert Arthur Griffith

Rhiant: Owen Griffith Owen

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd a beirniad

Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

Awdur: Griffith Thomas Roberts

Ganwyd yn y Fronllwyd, Waun Fawr, mab Owen Griffith Owen, chwarelwr. Dysgodd ddarllen yn ysgol Sabothol Annibynwyr Moreia, Waun Fawr, a chafodd ddwy flynedd o ysgol ddyddiol cyn myned i weithio i chwarel Dinorwig yn 12 oed. Cafodd gefnogaeth gan '[Huw Tegai](#)' a '[Caledfryn](#)' i astudio llenyddiaeth Gymraeg. Yn 1865 enillodd gadair eisteddfod Bethesda am awdl ar 'Adda.' Ei waith gorau ydyw ei gywyddau i'r 'Nos,' 'Gobaith,' a 'Chartref.' Cyfansoddodd hefyd gerdd goffa ar ôl '[Glasynys](#).' Priododd Ann, merch tyddyn yn y Waun Fawr o'r enw Ala-bawl. Bu iddynt chwech o blant - yr hynaf ohonynt oedd [R. A. Griffith](#) ('Elphin'). Ar ôl priodi aeth am chwe mis o ysgol ac yna agorodd siop groser yn 23 High Street, Caernarfon, gyferbyn â swyddfa'r *Herald Cymraeg* y pryd hwnnw, a daeth ei siop yn ganolfan llenyddol tref Caernarfon. Yno yr oedd '[Llew Llwyfo](#)' ac '[Alfardd](#),' golygyddion yr *Herald*, yn ymwelwyr cyson; 'Gwilym Alltwen,' '[Cynddelw](#),' John Morgan ('Cadnant'), a'r '[Thesbiad](#)' yn fynych; '[Hwfa Môn](#),' '[Mynyddog](#),' a '[Ceiriog](#)' ar eu tro, a châi 'Bro Gwalia,' o'r un nodwedd â'r 'Bardd Cocos,' yr un croeso. Cyfrifid 'Ioan Arfon' yn gryn awdurdod ar ddaear yn ei ddydd, a chyhoeddodd lyfr ar y testun, *Traethawd Ymarferol ar Lechfeini Sir Gaernarfon*, 1864, ac yr oedd ef a'i gyfeillion '[Alfardd](#)' a 'Gwilym Alltwen' ar bwyllgor cyntaf Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru a gyfarfu gyntaf 21 Mawrth 1874. Ymgynghorai '[Alfardd](#)' ag ef cyn cyhoeddi ei ysgrifau i ymosod ar y barnwr Horsham Cox ac eraill a fynnai gau'r iaith Gymraeg allan o'r llysoedd gwladol. 'Ioan Arfon' a olygodd y gyfrol, [Barddoniaeth Cynddelw](#), a gyhoeddwyd yn 1877, a *Lloffion y Flwyddyn*, sef y farddoniaeth a gyhoeddwyd yn *Yr Herald Cymraeg* yn ystod y flwyddyn 1878.

Bu 'Ioan Arfon' farw 22 Tachwedd 1881 a chladdwyd ef ym mynwent Bryn-r-odyn; y cludwyr oedd '[Clwydfardd](#),' '[Ceiriog](#),' '[Llew Llwyfo](#),' ac 'Elidirfab.' Ceir hir-a-thoddaid iddo o waith [Daniel Owen](#) yn y *Geninen*, 1883, 143.

Awdur

Griffith Thomas Roberts

Ffynonellau

Carnarvon and Denbigh herald, and North and South Wales independent, 26 Tachwedd 1881, 3 Rhagfyr 1881

Y Geninen (G y l Dewi), 1904, 47-51

Yr Eisteddfod, ii, 267

Darllen Pellach

Mr John Owen Griffith (Ioan Arfon), *Y Darlunydd*, rhif XXXIV, Cyfrol IV, Ionawr 1879

Erthygl Wicipedia: [John Owen Griffith](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [63660424](#)

Wikidata: [Q13129347](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

